Foel Friog

Y chwarel oedd y prif gyflogwr yn yr ardal ar ddiwedd y 18fed ganrif, ac roedd dros 800 o ddynion yn gweithio yma. Pan ddechreuodd y chwareli gau yn ystod yr 20fed ganrif, daeth y Comisiwn Coedwigaeth yn brif gyflogwr, ac aeth ati i blannu ochrau'r bryniau o gylch Aberllefenni a Chorris. Mae'r coed, wrth iddynt dyfu, wedi gweddnewid yr olygfa, ond pan oedd y chwareli yn eu hanterth roedd gan bob chwarel glwstwr o adeiladau, gyda rhodau dŵr, pontydd pwyso, stablau i'r ceffylau a oedd yn tynnu'r wagenni, tramffyrdd a thomennydd enfawr o rwbel. Os edrychwch chi'n ofalus, gallwch weld eu holion o hyd.

Chwiliwch am

Yn ystod y gwanwyn a'r haf, mae'r coetir derw a'r goedwig gonwydd yn effro gyda thrydar adar megis y titw, y telor, delor y cnau, y gwybedog brith, y dryw a'r dryw eurben. Mae'r amrywiaeth fwyaf yn byw yn y coetir derw, ond mae'n well gan rai adar megis y pila gwyrdd a'r gylfingroes, sy'n hoffi conau, fyw yn y goedwig gonwydd. Mae adar ysglyfaethus megis y bwncath yn esgyn a hofran yn yr awyr uwchben.

Gylfingroes gwryw
Male Crossbill

During the late 18th century slate quarrying was the major occupation locally, employing over 800 men. When the quarries began to close in the 20th century the Forestry Commission became the main employer planting the hillsides around Aberllefenni and Corris. The maturing trees have transformed the views but, when quarrying was at its peak, each quarry had a cluster of buildings, with waterwheels, weighbridges, stables for the horses that pulled the trucks, tramways and vast spoil heaps. If you look carefully you can still find evidence of these.

Llwybr *Pen-y-Bryn*

2 m 3.2 km

Cychwyn: Maes parcio Foel Friog, Aberllefenni

Pellter: 2 filltir; caniatewch 1.5 awr ar gyfer y daith

Gradd: Cymedrol, gyda gelltydd serth i fyny ac i lawr (220m/680tr o waith dringo)

Uchafbwyntiau

Cewch weld coed derw hynafol wedi'u gorchuddio â mwsogl, rhedyn a chen, hen ffermdai gwag yng nghanol y goedwig, golygfeydd godidog, ac olion y chwarel.

Llwybr

O'r maes parcio, ewch ar hyd y llwybr gan ddilyn yr arwyddion nes y dewch at drac. Trowch i'r chwith ar y trac a chroeswch y bont. Trowch i'r dde i fyny'r allt ac i mewn i'r goedwig. Trowch i'r dde ac ewch ar hyd trac gwelltog, gan ddringo'r llethr nes dowch at adfeilion ffermdy Pen-y-Bryn. Yna, trowch i'r chwith ac ewch ar hyd y llwybr ar hyd ochr y bryn, lle ceir golygfeydd da. Ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr hwn sy'n disgyn drwy goetir derw. Lle mae'r llwybrau'n cwrdd, ewch i'r chwith drwy'r giât a dilynwch y llwybr yn ôl i'r maes parcio.





Beth am roi cynnig ar y Llwybr Iechyd neu'r Llwybr Llechi gerllaw?
(gweler taflen Partneriaeth Llwybrau Corris)



Titw Penddu
Coal Tit

Look out for

Both the oak woodland and conifer forest are alive in spring and summer with the constant twittering of birds such as tits, warblers, nuthatch, pied flycatcher, wrens and goldcrest. The greatest variety live in the oak woodland but some cone-loving birds such as siskins and crossbills prefer the conifers. Birds of prey, such as buzzards, soar and hover in the skies above.

Pen-y-Bryn *Trail*

2 m 3.2 km

Start: Foel Friog car park, Aberllefenni

Distance: 2 miles

Allow 1.5hrs

Grade: Moderate with steep ascent and descent (climb 220m/680ft)

Highlights

Ancient oaks covered with moss, ferns and lichens, derelict farmsteads in the midst of the forest, superb views, quarry remains

Route

From the car park follow the signed path to a track. Turn left onto the track and cross the bridge. Turn right uphill into the forest. Turn right along a grassy track, climbing uphill to the ruins of Pen-y-Bryn farmstead. Then bear left on the path along the hillside with good views. Continue on the hillside path descending through oak woodland. At the path junction turn left through gate and follow the path back to the car park.

Why not also try one of the nearby Health walks or Slate Trails?
(see Corris Footpath Partnership leaflet)